Rhaglen wrthderfysgaeth Prevent a mesurau diogelu ehangach yn ystod yr Argyfwng COVID

Gyda'r posibilrwydd y bydd ysgolion ar draws Cymru yn parhau i fod ar gau am gyfnod sylweddol o amser, bydd yn fwy tebygol y bydd plant yn treulio cryn dipyn o amser yn ymchwilio, chwarae gemau neu gyfathrebu ar-lein. Y flaenoriaeth i bob rhiant ac athro yw cadw plant yn ddiogel ar-lein, atal niwed a diogelu ar bob adeg. Mae'n bosibl y bydd rhywrai yn ceisio manteisio ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau gan wybod y bydd plant ar-lein fwy nag arfer yn ystod y cyfnod heriol hwn. Ystyriwch y canlynol pan fyddwch chi neu'ch plentyn ar-lein:

Dylai plant wneud y canlynol:

- Gwybod gyda phwy maen nhw'n siarad
- Cadarnhau os oes ganddynt hawl i agor deunyddiau neu chwarae gemau penodol
- Diogelu eu henw da ar-lein
- Agor negeseuon o ffynonellau y maent yn ymddiried ynddynt yn unig
- Peidio rhannu gwybodaeth bersonol
- Peidio rhannu lluniau na fideos amhriodol
- Siarad â rhywun os ydynt yn teimlo'n anghysurus
- Deall nad yw popeth sydd ar-lein yn wir
- Blocio ac adrodd am bobl sy'n trolio
- Peidio rhoi mewn i bwysau
- Meddwl cyn cyhoeddi rhywbeth ar-lein
- Cadw'n ddiogel ar-lein

Dylai rhieni wneud y canlynol:

- Monitro pwy sy'n cyfathrebu â'u plant ar-lein
- Monitro'r cynnwys a'r deunyddiau sy'n cael eu gweld neu eu lawrlwytho
- Cadarnhau bod y cynnwys yn briodol
- Gosod ffiniau a defnyddio'r mesurau rheoli sydd ar gael i rieni
- Trafod beth mae'r plant yn ei wneud ar-lein
- Rheoli / cadarnhau gosodiadau preifatrwydd
- Gwybod ble i ddod o hyd i gymorth

Adrodd am bryderon

https://www.gov.uk/report-terrorism

https://www.gwent.police.uk/cy/cyngor/cyngor/t-z-terfysgaeth-tystion-trosedd/terfysgaeth/prevent/

https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/cyngor-a-chefnogaeth/rwyn-poeni-am-weithgarwch-terfysgaeth-radicaleiddio/rwyn-poeni-bod-rhywun-yn-cael-ei-radicaleiddio/ffurflen-atgyfeirio-prevent/

https://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/combating-extremism?lang=cy-gb

https://www.south-wales.police.uk/cy/cysylltu-a-ni/gwnewch-e-ar-lein/

Adnoddau defnyddiol eraill

www.cyberaware.gov.uk/

www.getsafeonline.org

www.saferinternet.org.uk/

www.childnet.com